Uwch y Dibyn

Dwy wedi sylwi pan yn dy gwmni
Fod tinc bach oeraidd yn dy wenu
Ein llygaid byth yn cwrdd wrth siarad
A thithe byth yn sôn am gariad.

Rwy'n sicr nawr dy fod yn cuddio
Rhyw gyfrinach o dy eiddo
Galwad ffon a siwrne sydyn
"Nol yn hwyr!", dyweda'r nodyn.

Beth sy'n anobeithiol heddi
Heno fydd yn gais mewn gweddi
'Fory falle ddaw 'na ateb
Fel colomen wen ddaw adre'.

Dawnsio uwch y dibyn
Canu yn y ddrycin
Dawnsio uwch y dibyn
A chwerthin yn y storm.

© Geraint Griffiths 1990.